

Cwestiynau cyffredin am yr ad-daliad am ollyngiadau

Trwy adolygiad mewnol o'n hadroddiadau ar ollyngiadau a defnydd fesul pen (h.y. faint o ddŵr sy'n cael ei ddefnyddio gan bob cwsmer) fe ffeindion ni nad oedd elfennau o'n cyfrifiadau o ran y mesurau allweddol hyn ar gyfer blynyddoedd 2020-2022 yn cydymffurfio â'r gofynion rheoliadol. Mae rhai Cwestiynau ac Atebion isod ac rydym yn gobeithio y byddant yn ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Pam ydw i'n cael y taliad?

Bydd pob un o gwsmeriaid cyfredol Dŵr Cymru - cwsmeriaid domestig a busnes - oedd â chyfrif byw gyda Dŵr Cymru ar 31 Mawrth 2023 yn derbyn ad-daliad o £10.60 a gaiff ei gredydu i'w cyfrifon. Mae hyn yn dilyn ein hadolygiad mewnol o'n hadroddiadau ar ollyngiadau a defnydd fesul pen (h.y. faint o ddŵr sy'n cael ei ddefnyddio gan bob cwsmer) a ddaeth i'r casgliad nad oedd elfennau o'n cyfrifiadau ar gyfer y mesurau allweddol hyn ar gyfer blynyddoedd 2020-2022 yn cydymffurfio â'r gofynion rheoliadol.

A fydd unrhyw gwsmeriaid yn cael mwy na £10.60?

Na fydd, bydd pob un o gwsmeriaid Dŵr Cymru - cwsmeriaid domestig a busnes - yn cael £10.60.

A gaf i herio'r penderfyniad a hawlio mwy na £10.60? Na chewch, bydd pob un o gwsmeriaid Dŵr Cymru - cwsmeriaid domestig a busnes - yn cael £10.60.

Sut caiff y taliad ei wneud?

Caiff y taliad o £10.60 ei gredydu'n awtomatig i bob cyfrif domestig/busnes cofrestredig. Bydd Dŵr Cymru'n gwneud hyn yn awtomatig. Nid oes angen i gwsmeriaid wneud dim ac nid oes angen cysylltu â ni.

A gaf i drefnu bod y £10.60 yn cael ei anfon ataf i?

Na chewch, nid yw hynny'n bosibl. Caiff yr holl daliadau eu credydu'n awtomatig i'r cyfrif domestig/busnes cofrestredig a'u tynnu o unrhyw falans sy'n weddill neu i leihau eich bil nesaf.

A oes angen i'r cwsmeriaid wneud rhywbeth?

Nac oes. Caiff y taliad ei gredydu i'ch cyfrif os oedd gennych gyfrif cofrestredig gyda Dŵr Cymru ar 31 Mawrth 2023.

Pryd byddaf i'n derbyn fy nhaliad?

Mae trefnu taliad o'r fath ar gyfer pob aelwyd a busnes yn dipyn o her. Caiff y gwaith ei gyflawni gam wrth gam, ac er na allwn gadarnhau pryd yn union y caiff pob cyfrif ei gredydu, ein bwriad yw sicrhau bod pob cyfrif yn cael ei gredydu cyn pen y chwe mis nesaf. Caiff y credyd hwn ei dynnu o unrhyw falans sy'n weddill neu o'ch bil nesaf os nad oes unrhyw falans yn weddill ar eich cyfrif.

Sut byddaf i'n gwybod eich bod chi wedi prosesu fy nhaliad?

Fe welwch chi'r credyd o £10.60 ar y bil nesaf a gewch chi gennym. Os oes mesurydd dŵr gennych, fe welwch hyn o fewn y 6 mis nesaf. Os nad oes mesurydd dŵr gennych, bydd yn ymddangos ar y bil a gewch chi yn Chwefror / Mawrth 2024.

A fydd y credyd yn ymddangos ar lein af Fy Nghyfrif ar ôl ei gredydu?

Bydd, bydd yna ostyngiad o £10.60 yn eich balans, a bydd yr ad-daliad am ollyngiadau'n ymddangos ar eich bil nesaf.

Mae dyled ar fy nghyfrif, a gaf i'r taliad o £10.60 o hyd?

Cewch. Bydd pob un o gwsmeriaid Dŵr Cymru - cwsmeriaid domestig a busnes - yn cael £10.60. Pan gewch chi'ch bil nesaf gennym, fe welwch chi'r balans sy'n weddill, y taliadau newydd a'r credyd yma.

Fe symudais i yn ystod y 12 mis diwethaf, oes angen i mi wneud rhywbeth?

Nac oes. Caiff y taliad hwn ei greddydu'n awtomatig i'ch cyfrif cyfredol gyda Dŵr Cymru os ydych chi'n dal i fyw yn ardal weithredu Dŵr Cymru a bod cyfrif gennych o hyd.

A fyddwch chi'n anfon llythyr i gadarnhau eich bod wedi credydu fy nghyfrif â £10.60?

Na fyddwn. Ni fyddwn ni'n anfon llythyr, bydd y taliad hwn yn ymddangos ar eich bil nesaf.

Rwy'n cael gwasanaethau dŵr gwastraff yn unig gan Ddŵr Cymru, a gaf i daliad o £10.60?

Na chewch. Mae'r taliad hwn yn mynd i gwsmeriaid sy'n cael gwasanaethau dŵr yfed yn unig am ei bod yn ymwneud â sut rydyn ni'n rheoli gollyngiadau ar ein rhwydwaith dŵr yfed.

Oni allwch chi roi fy nhaliad o £10.60 i sefydliad elusennol?

Na allwn. Nid yw ein system filio, a fydd yn credydu eich cyfrif, yn caniatáu i ni wneud hyn.

Pam £10.60? Sut cafodd y swm ei gyfrifo?

Gwerth y tanadrodd ar ollyngiadau oedd £15 miliwn. Mae hyn wedi cael ei rannu'n gyfartal ar draws ein cwsmeriaid dŵr sydd wedi dod i swm o £10.60 y cwsmer.

Sut ydych chi'n bwriadu gwella eich perfformiad o ran gollyngiadau?

Mae'r taliad hwn i gydnabod bod gollyngiadau wedi bod yn rhedeg ar lefel uwch o lawer nag a gydnabuwyd o'r blaen. Mae'r cwmni wedi dyrannu £54m ychwanegol i daclo gollyngiadau dros y ddwy flynedd nesaf er mwyn lleihau'r lefel cyn gynted â phosibl. Bydd Dŵr Cymru'n gwario cyfanswm o £284m yn hyn o beth rhwng 2020 a diwedd yr AMP yma yn 2025.